



Ein cyf/Our ref: MA/JH/4337/21

Jenny Rathbone AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

05 Ionawr 2022

Annwyl Jenny,

Diolch am yr adroddiad Dyled a'r Pandemig, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Croesawaf yr adroddiad a'i argymhellion craff, gan gydnabod cyfraniad sylweddol a gwaith caled aelodau'r Pwyllgor yn ystod eu hymchwiliad amserol.

Mae'r dystiolaeth yn glir y gall effaith dyled broblemus ar lesiant unigolion a'u teuluoedd fod yn negyddol ac yn hirdymor. Cytunaf â phryderon y Pwyllgor ynghylch yr angen dybryd i fynd i'r afael â'r baich dyled cynyddol a wynebir gan rai o'n haelwydydd mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau yn ein cymdeithas a bydd y pwysau ariannol a roddodd ar aelwydydd nawr yn dwysáu oherwydd effaith gyfunol penderfyniad polisi Llywodraeth y DU i ddod â'r cynnydd o £20 yr wythnos mewn Credyd Cynhwysol i ben a'r costau byw uwch.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i helpu aelwydydd sydd mewn sefyllfa ariannol anodd ac rwy'n cydnabod y bydd rhoi sawl un o argymhellion yr adroddiad ar waith yn cefnogi'r ymdrechion i helpu aelwydydd i ddod o hyd i ffordd gynaliadwy allan o ddyled.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi rhoi fy ymateb i 14 o argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1 isod a byddaf yn darparu adroddiadau i'r Pwyllgor ar hynt y gwaith o roi argymhellion priodol ar waith.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane'. The signature is written in a cursive style with a horizontal line above the first letter 'J'.

**Jane Hutt AS/MS**

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice

## **Atodiad A: Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Dyled a'r Pandemig - Argymhellion**

---

**Argymhelliad 1. Dylai uned data cydraddoldeb Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau yn y sector i gasglu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru gan ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2022-23, a dadansoddi'r data hynny yn ôl nodweddion gwarchoddedig.**

### **Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd Uned Data Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau allanol i gasglu data ar amrywiaeth o bynciau yng Nghymru. Nod yr Uned fydd asesu pa ddata sy'n bodoli eisoes all gael eu dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig. O ddechrau 2022 byddwn yn dechrau datblygu ein Cynllun Tystiolaeth Strategol ac yn cynnal gwaith mapio data a thystiolaeth cychwynnol. Yna cawn syniad cliriach o'r blaenoriaethau a dichonoldeb gwahanol bynciau. Ar y cam hwn byddwn mewn gwell sefyllfa i gynghori ble y bydd data ar ddyled yn cwmpo o gymharu â blaenoriaethau eraill ar gyfer yr Unedau.

Bydd yr Uned Ymchwil Data Gweinyddol yn chwarae rôl allweddol wrth helpu'r Uned Data Cydraddoldeb i gael gafael ar ddata i mewn i SAIL. Ar y cam hwn mae'r Uned Ymchwil wedi cynghori y gall data ar ddyledion fod yn hynod heriol o ystyried natur sensitif rhannu data ar wybodaeth ariannol ac nad yw llawer o asiantaethau llywodraethol yn casglu gwybodaeth am ddyled. Mae heriau ychwanegol ynghlwm wrth gasglu data gweinyddol gan sefydliadau trydydd sector, megis llywodraethu ychwanegol a materion ansawdd data a all ofyn am gryn dipyn o waith ychwanegol cyn bod modd dechrau'r gwaith dadansoddi.

---

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil arbenigol i'r berthynas rhwng dibyniaeth a dyled ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynglŷn â'r cynnydd. Dylai'r ymchwil hon gynnwys dibyniaeth ar ei holl ffurfiau gan gynnwys gamblo, alcohol a dibyniaeth ar sylweddau eraill, a dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a'r amserlenni ar gyfer cwblhau a chyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2022.**

### **Derbyn**

Mae yna gysylltiadau sylweddol rhwng dibyniaeth ac unigolyn yn profi dyled broblemus ac mae gan y darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cyngor ar ddyled arbenigol drwy'r Gronfa Gynghori Sengl brosiect sefydledig yn mynd i'r afael â niwed gamblo sy'n gwella hyfforddiant cynghorwyr gan eu helpu i nodi pobl sy'n dangos arwyddion posibl o niwed gamblo.

Cydnabyddir pwysigrwydd cynnal ymchwil i ddibyniaeth ar ei holl ffurfiau sy'n un o achosion sylfaenol dyled. Bydd tîm ymchwil lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio â chydweithwyr polisi perthnasol er mwyn pennu pa mor hir y byddai'r ymchwil yn ei gymryd; pa gyllideb sydd ar gael i'w chynnal; a oes gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ddigon o adnoddau i'w rheoli; a sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau ac ymrwymïadau eraill mewn cynlluniau tystiolaeth.

Rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor cyn diwedd mis Mawrth 2022.

---

**Argymhelliad 3. Yn ei hymateb, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa fesurau ychwanegol y bydd yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo gwasanaethau cyngor ar ddyled i grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd mewn mwy o berygl o fynd i ddyled, er mwyn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt.**

### **Derbyn**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Gynghori Sengl ym mis Ionawr 2020 er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi arian grant i wasanaethau cyngor integredig sy'n hysbys, yn hygyrch, ac yn gallu cynnig mynediad cynnar at yr holl help a chefnogaeth sydd eu hangen ar rywun i fynd i'r afael â'i broblemau lles cymdeithasol mewn ffordd gynaliadwy. Mae model darparu gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl, sy'n cynnwys Partneriaid Cyngor a Mynediad, wedi bod yn ffordd hynod lwyddiannus o ymgorffori a defnyddio arbenigedd sefydliadau cenedlaethol a lleol sy'n arbenigo mewn cyrraedd grwpiau agored i niwed. Fodd bynnag, gwyddom fod mwy y gallwn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau cyngor yn parhau i gyrraedd pobl agored i niwed cyn i'w problemau ddatblygu'n argyfwng, yn enwedig y rhai sydd angen cyngor ar ddyled nad ydynt yn dueddol o geisio cyngor nes bod pethau wedi mynd o ddrwg i waeth, megis credydwyf yn cymryd camau gorfodi cyfreithiol.

Yn 2022, bydd swyddogion yn cynorthwyo darparwyr y Gronfa Gynghori Sengl i ehangu eu rhwydweithiau Partneriaid Mynediad i gynnwys mwy o sefydliadau cymunedol a all dargedu negeseuon hygyrch at grwpiau allweddol o'r boblogaeth yn eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau cyngor ar ddyled (a mathau eraill o gyngor). Gan adeiladu ar y model cyfathrebu a ddefnyddiwyd yn ymgyrch hawlio budd-daliadau lles genedlaethol 'Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi', bydd swyddogion yn datblygu dulliau cyfathrebu cadarnhaol sy'n dileu stigma 'bod mewn dyled' ac yn annog pobl i geisio cyngor i fynd i'r afael â phroblemau ariannol sydd wedi'u hachosi gan y pandemig.

---

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau diwygiedig o fewn y tri mis nesaf i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, er mwyn sicrhau eu bod ar waith ymhell cyn y cynnydd nesaf i'r cap ar brisiau ynni a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2022.**

### **Derbyn mewn Egwyddor**

Mae camau i fynd i'r afael â chostau ynni drwy fesurau megis y cap ar brisiau y tu hwnt i gymhwysedd datganoledig. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno sylwadau cryf a dybryd i Lywodraeth y DU ar y mater hwn, sydd, rydym yn cytuno, yn rhoi llawer o aelwydydd mewn mwy o berygl o dlodi tanwydd. O fewn ein cymhwysedd, rydym eisoes wedi cymryd camau mwy uniongyrchol i gefnogi'r rhai ar incwm is y gaeaf hwn drwy sicrhau bod taliadau ar gael drwy'r gronfa Cymorth Dewisol a Chynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf, sef cynllun untro sy'n darparu taliad o £100 i aelwydydd cymwys.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno â'r angen i sicrhau bod ei chynlluniau yn briodol i'r cyd-destun presennol. Gwnaethom gyhoeddi ein cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ym mis Mawrth 2021, a oedd yn cynnwys camau i sicrhau na fydd

unrhyw aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus, ac na fydd mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd erbyn 2035. Hefyd gwnaethom ymrwymo i adolygu'r Cynllun bob dwy flynedd, gyda gwaith eisoes yn mynd rhagddo i lywio'r diweddariad nesaf yng ngwanwyn 2023. Mae'r adolygiad hwn yn cynnig cyfle i asesu hynt y gwaith o gymryd camau i gyflawni ein targedau ac, fel y bo'n briodol, ddiwygio camau presennol neu lunio camau newydd.

---

## **Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder yn ei Chyllideb Ddrafft ynglŷn â sut y bydd yn dyrannu digon o arian hyd at 2024-25 i gyflymu cynlluniau i sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yn cyrraedd Sgôr Effeithlonrwydd Ynni A i liniaru'r cynnydd mewn tlodi tanwydd o ganlyniad i gostau ynni sy'n cynyddu.**

### **Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn y gwaith o ddatgarboneiddio cartrefi, gwella eu heffeithlonrwydd ynni a rhaglenni i fynd i'r afael yn uniongyrchol â materion mwy dybryd tlodi tanwydd. Ynghyd â'r mesurau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn uniongyrchol, a nodir yn Argymhelliad 4, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo bron £70 miliwn i ddatgarboneiddio cartrefi cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ddiweddar mae wedi cyhoeddi £150 miliwn arall dros y tair blynedd nesaf. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, sy'n darparu arian grant i brosiectau sy'n ceisio dulliau newydd arloesol o ddatgarboneiddio cartrefi cymdeithasol yng Nghymru mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Bydd yr hyn a ddysgir yn sgil y prosiectau hyn yn pennu cyfeiriad cartrefi cymdeithasol, a'r rhai yn y sector rhentu preifat a'r sector perchennog-ddeiliaid. Mae stoc dai Cymru yn amrywiol, ac ni fydd un ateb yn gymwys i bob eiddo. Mae'n bwysig sicrhau bod yr ymyriadau cywir yn cael eu gwneud yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, gan ddefnyddio sail dystiolaeth gadarn. Mae'r gwaith o ddatgarboneiddio cartrefi cymdeithasol yn gymhleth, a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar draws y sector i sicrhau bod ein dull yn briodol, yn effeithiol ac yn gyflawnadwy, ac nad yw'n cael effaith negyddol ar denantiaid. Mae hyn yn cynnwys drwy'r adolygiad sydd ar ddod o gynllun Llywodraeth Cymru i drechu tlodi tanwydd er mwyn sicrhau bod datgarboneiddio yn cael ei ystyried yn y cyd-destun hwnnw.

Yng ngwanwyn 2022, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fersiwn nesaf o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), sy'n gosod y safon ar gyfer cartrefi cymdeithasol presennol yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys manylion am y safonau datgarboneiddio i'w cynnwys yn SATC2, a disgwylir ei lansio yn 2023 ar hyn o bryd.

---

## **Argymhelliad 6. Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o Brotocol Treth Gyngor Cymru asesu a ddylid cryfhau'r Protocol, gan gynnwys a ddylid ei roi ar sail statudol. Dylid bwrw ymlaen â'r adolygiad hwn fel mater o frys a'i gwblhau erbyn mis Mehefin 2022 fan bellaf.**

### **Derbyn**

Rydym eisoes wedi dechrau gweithio ar adolygu a gwerthuso camau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a ddigwyddodd dros bumed Tymor y Senedd i liniaru'r pwysau ar bobl agored i niwed o ran y dreth gyngor. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r broses o weithredu *Protocol Treth Gyngor Cymru: Arferion Da wrth Gasglu'r Dreth Gyngor* a lansiwyd ym mis Ionawr 2019.

Bydd yr adolygiad yn edrych ar y broses o roi'r protocol ar waith o ran ei gynllun a'i gyflawni ac yn archwilio'r graddau y mae wedi darparu cymorth priodol yn llwyddiannus i ddyledwyr agored i niwed, yn enwedig pobl mewn ôl-ddyledion treth gyngor, a phobl ac aelwydydd eraill sy'n agored i niwed. Defnyddir canfyddiadau'r adolygiad i nodi enghreifftiau o arferion da a all gael eu rhannu a ffyrdd o oresgyn unrhyw rwystrau i'w roi ar waith.

---

## **Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dichonoldeb cyflwyno 'coelcerth dyledion' mewn perthynas ag agweddau ar ddyled sector cyhoeddus, gan ddefnyddio tystiolaeth o Gymru a thu hwnt, a dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i gasgliadau erbyn diwedd Mehefin 2022.**

### **Derbyn**

Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a chydweithwyr polisi perthnasol ar draws y llywodraeth yn cydweithio er mwyn cwmparu'r ymchwil i ddichonoldeb cyflwyno coelcerthi dyled sector cyhoeddus. Bydd y gwaith cwmparu yn cynnwys pa adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r ymchwil, faint y byddai'r ymchwil yn ei gymryd a pha gyllideb sydd ar gael i'w chynnal ac ati.

Ffocws arbennig ar gyfer yr argymhelliad hwn fydd ystyried cyfres adroddiadau ymchwil Credyd Cynhwysol, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru, er mwyn gweld a oes unrhyw dystiolaeth berthnasol; ynghyd â'r Gwerthusiad o Ymyriadau sydd wedi'i gynllunio i gynorthwyo pobl agored i niwed i dalu'r dreth gyngor. Mae'n bwysig bod yr ymchwil yn cynnwys archwiliad o effeithiolrwydd y amrywiaeth o ddatrysiadau dyledion sydd eisoes yn hygyrch i bobl na allant gyflawni eu hymrwymiaadau ariannol i gredydwyr sector cyhoeddus (a mathau eraill o gredydwyr), sy'n cynnwys dileu dyledion.

---

## **Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau pellach y mae wedi'u cymryd i wella ymwybyddiaeth o gyfraith tai Cymru ymhlith swyddogion rheng flaen yr heddlu.**

### **Derbyn**

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n heddluoedd yng Nghymru. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cyfarfod yn rheolaidd â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Arweiniol, ac yn achub ar y cyfle hwn i godi materion sy'n dod i'r amlwg, yn cynnwys yr achosion o droi allan anghyfreithlon sydd wedi'u nodi. Y Prif Weinidog neu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n cadeirio Bwrdd Plismona a Phartneriaeth Cymru. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnig cyfle i gynnal trafodaethau strategol ynghylch materion sydd o bwys i Blismona yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion

hefyd wedi gofyn i Uned Gyswllt yr Heddlu godi ymwybyddiaeth â heddluoedd yn uniongyrchol. Mae'r cyngor ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd yn tanlinellu bod angen gorchymyn llys cyn troi rhywun allan (e.e. gweler <https://llyw.cymru/troi-allan-or-cartref-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws>)

---

## **Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau ei bod yn defnyddio'r ysgogiadau deddfwriaethol neu bolisi sydd ar gael iddi fel nad yw tenantiaid ar draws pob deiliadaeth yn colli eu cartrefi oherwydd dyled a gronnwyd o ganlyniad i'r pandemig.**

### **Derbyn**

Caiff y Grant Cymorth Tai (GCT) ei ddsbarthu i awdurdodau lleol er mwyn cynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymorth tai yn eu hardal leol i atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i feithrin y gallu, annibyniaeth, sgiliau a hyder i gael a/neu gadw cartref sefydlog ac addas. Yn 2021-22 cynyddwyd y GCT £40m, gan fynd â'r cyfanswm cyllid o £126.7 miliwn i £166.7 miliwn. Mae'r cynnydd mewn cyllid wedi'i gynnal yn y Gyllideb Ddrafft 2022-23 ddiweddaraf, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021. Bydd hyn yn helpu i sicrhau'r trawsnewid sydd ei angen i gyflawni ein nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Mae'r GCT yn cynorthwyo pobl i fynd i'r afael â'r lluo o broblemau maent yn eu hwynebu weithiau, yn cynnwys cynnal a rheoli tenantiaeth. Gall cymorth tenantiaeth gynnwys darparu cyngor ar sut i reoli eu cyllid a'u dyled, cyfryngu â landlordiaid, gweithgareddau sy'n meithrin dealltwriaeth unigolyn o'i hawliau tai a lles, a symiau bach ar gyfer prosiectau arloesol lle cânt eu defnyddio gyda'r unigolyn i wella ei allu i fyw'n fwy annibynnol.

Mae'r cymorth yn niwtral o ran deiliadaeth a gall gael ei ddarparu drwy wasanaethau cymorth fel y bo'r angen i unigolion yn eu cartref eu hunain, fel rhan o wasanaeth cofleidiol mewn llety dros dro neu barhaol.

---

## **Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod y cyfnod hysbysu o chwe mis yn parhau i fod mewn grym hyd nes y daw Deddf Rhentu Cartrefi 2016 i rym.**

### **Derbyn mewn Egwyddor**

Gosododd y Gweinidog Newid Hinsawdd Reoliadau o dan baragraffau 1(2) a 14(1) o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ar 17 Rhagfyr 2021. Gwnaeth y Rheoliadau hyn ymestyn, tan 24 Mawrth 2022, pan ddaw Deddf y Coronafeirws 2020 i ben, y gofyniad i roi chwe mis o rybudd ar gyfer hysbysiadau wrth ddod â thenantiaeth i ben, ac eithrio pan fo'r hysbysiadau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig. Mae datganiad ysgrifenedig gweinidogol ar y rheoliadau ar gael yn: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-defnyddio-pwerau-o-dan-ddeddf-y-coronafeirws-2020-tenantiaethau-preswyl-2>. Diben y Rheoliadau sy'n ymestyn cyfnod o rybudd troi allan 'heb fai' Adran 21 yw sicrhau, ar adeg pan fo'r coronafeirws yn parhau i

fod yn fygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd, y bydd yn dal i fod yn ofynnol i landlordiaid roi mwy o rybudd i denantiaid cyn iddynt allu cychwyn achos adennill meddiant.

Rhaid i'r rheoliadau gael eu cyfiawnhau ar sail pwerau o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020. Felly, mi fyddai'n amhriodol i'r Gweinidog penderfynu o flaen llaw beth fydd y sefyllfa o ran y pandemig erbyn i ni gyrraedd y pwynt adolygu nesaf.

Rhoddir Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, fel y'i diwygiwyd yn ddiweddar gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 i gynyddu diogelwch deiliadaeth, ar waith cyn toriad yr haf Senedd 2022. Rydym hefyd wedi ymrwmo i sicrhau y caiff landlordiaid a thenantiaid tenantiaethau sy'n bodoli eisoes, a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r contract meddiannaeth Rhentu Cartrefi priodol, chwe mis i baratoi ar gyfer ei rhoi ar waith.

---

## **Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ymestyn y cynllun Grant Caledi i Denantiaid i gynnwys tenantiaid incwm isel mewn tai cymdeithasol nad ydynt yn gymwys i gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai.**

### **Derbyn**

Cafodd y Grant Caledi i Denantiaid (GCD) ei lansio ym mis Gorffennaf ac mae'n rhoi cymorth ariannol i denantiaid sydd mewn ôl-ddyledion rhent difrifol o ganlyniad i COVID-19 ac nad ydynt yn cael budd-daliadau. O ystyried mai'r amcan yw atal risg uniongyrchol o ddigartrefedd, mae'r grant yn darparu cymorth i denantiaid yn y Sector Rhentu Preifat fel blaenoriaeth; yr eithriad yw tenantiaid cymdeithasol, nad ydynt yn cael budd-daliadau tai sy'n talu rhent ar gyfradd y farchnad.

Caiff tenantiaid yn y Sector Rhentu Preifat lai o ddiogelwch ac, yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn talu mwy o rent na thenantiaid tai cymdeithasol ac mae nifer o fesurau diogelu a ddarperir i denantiaid tai cymdeithasol. Mae darparwyr tai cymdeithasol wedi cytuno i brotocol dim troi allan ar sail ôl-ddyledion rhent yn ystod y pandemig ac i gytuno ar gynlluniau ad-dalu realistig gyda'u tenantiaid. Mae cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn gallu, ac yn, amsugno rhai drwg-ddyledion o fewn eu cynlluniau ariannol. Mae swyddogion yn trafod â rhanddeiliaid sut y gallai'r cynllun grant gael ei ddatblygu ymhellach er mwyn cyrraedd y rhai sy'n wynebu digartrefedd a byddant yn ystyried y posibilrwydd o ymestyn y cynllun Grant i gynnwys tenantiaid incwm isel mewn tai cymdeithasol nad ydynt yn gymwys i gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai.

---

## **Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu hyrwyddo ffynonellau credyd fforddiadwy ymhlith y rhai sydd mewn mwy o berygl o ddyled dros y chwe mis nesaf.**

### **Derbyn**

Darparwyd £60,000 y gaeaf hwn i hyrwyddo benthyca fforddiadwy drwy undebau credyd. Mae hyn mewn ymateb i'r pwysau aciwt ar incymau aelwydydd a fydd yn gorfodi teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd i chwilio am



gredyd am ba gost bynnag, er mwyn ceisio mantoli'r gyllideb. Mae £40,000 o'r arian hwn yn cefnogi ymgyrch farchnata ddigidol ar gyfer credyd fforddiadwy rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2022. Mae'r ymgyrch ddwys hon yn codi ymwybyddiaeth o fenthycyca fforddiadwy drwy Undebau Credyd Cymru, yn hyrwyddo eu tudalen gwneud cais am fenthyciad ddigidol ar gyfer symiau o hyd at £1000 gan ddefnyddio llwyfannau amrywiol yn y cyfryngau i gyrraedd mwy o bobl yn cynnwys Facebook, Instagram, i ddenu aelodau iau, a Google. Ynghyd â hyn rydym wedi darparu £20,000 i bob undeb credyd i wneud gwaith marchnata yn ei gymunedau i hysbysebu benthycyca fforddiadwy. Mae'r cyllid hwn eisoes wedi cael ei ddyrannu.

Gall cael benthycyca arian fod yn beth cadarnhaol os caiff ei wneud yn gyfrifol a dyma'r neges rydym am ei chyfleu i asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn ariannol. Mae angen inni weithio gyda benthycwyr fforddiadwy, gan godi ymwybyddiaeth a chyfeirio pobl atynt er mwyn sicrhau bod cael benthycyca arian yn rhywbeth y gellir ei gadw dan reolaeth. Heb hyn, mae risg sylweddol y bydd pobl sydd mewn argyfwng yn troi at fenthycwyr cost uchel neu fenthycwyr anghyfreithlon. Gwyddom y gall cael benthycyca arian mewn ffordd gyfrifol a fforddiadwy helpu i dorri cylch dyled sy'n mynd allan o bob rheolaeth. Bydd yr ymgyrch farchnata ddigidol ddwys yn helpu i hyrwyddo'r neges hon.

---

### **Argymhelliaid 13. Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyblygrwydd a gyflwynwyd i'r Gronfa Cymorth Dewisol o ganlyniad i'r pandemig yn nodwedd barhaol o'r gronfa.**

#### **Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r gyllideb ar gyfer y gronfa wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn gyda chyllid ychwanegol ar gael o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mesur dros dro oedd yr hyblygrwydd a gyflwynwyd ym mis Mai 2020 i fod, a hynny i gefnogi pobl y gwnaeth y pandemig effeithio arnynt, a chytunwyd y bydd yn parhau i fod ar gael tan fis Mawrth 2022 er mwyn cefnogi pobl wrth iddynt ymdopi â cholli'r cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol. Cadarnhaodd y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr y bydd y gyllideb ar gyfer y gronfa yn 20/23 a thu hwnt yn £19.7m. Er bod y swm hwn yn llai na'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol, mae'n dal i fod yn uwch na lefel y gyllideb cyn y pandemig, gan adlewyrchu'r effaith ariannol y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi ei chael ar unigolion a'u teuluoedd. Er y bydd y gyllideb yn llai, rwy'n ceisio sicrhau bod y gronfa yn cael cymaint o effaith â phosibl drwy ymgorffori system frysbenneu ac atgyfeiriadau at fathau eraill o gymorth er mwyn cael effaith tymor hwy ar lesiant ariannol y rhai sy'n gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol, ac i wneud y gronfa yn fwy cynaliadwy. Bwriedir i'r Gronfa fod yn opsiwn pan fetho popeth arall, rhwyd diogelwch nes bod mathau eraill o gymorth ar gael. Rwyf am weld cynifer â phosibl o gleientiaid mynych y Gronfa yn cael cymorth ehangach er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu sefyllfaoedd ariannol bregus, a gwella eu canlyniadau tymor hwy.

Byddwn yn parhau i asesu effaith y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a'i gweithrediad yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw presennol. Bydd hyn hefyd yn amodol ar adolygiad parhaus o'r cyllid sydd ar gael, a byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ymateb i'r argyfyngau a wynebhir gan mai yno mae'r cymhwysedd o ran cymorth lles.

**Argymhelliad 14. Er mwyn llywio'r gwaith paratoi ar gyfer contract newydd y Gronfa Cymorth Dewisol o fis Ebrill 2023, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r Gronfa ar ei ffurf bresennol i gynnwys:**

- **adolygiad o feini prawf cymhwysra;**
- **opsiynau ar gyfer symleiddio'r broses o wneud cais; ac**
- **adolygiad o'r canllawiau sy'n gysylltiedig â cheisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon hawdd eu deall a'u bod wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir.**

**Derbyn**

Fel rhan o'r broses gaffael ar gyfer y contract newydd i gyflwyno'r Gronfa Cymorth Dewisol o 1 Ebrill 2023, caiff y meini prawf cymhwysra, y broses gwneud cais a'r canllawiau eu hadolygu. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, er ein bod yn awyddus i'r broses o wneud cais fod mor syml â phosibl, mae yna wybodaeth benodol y bydd angen inni ei chasglu am sefyllfa ariannol bresennol unigolion er mwyn ein helpu i ddarparu cymorth effeithlon ac effeithiol. Gall y Gronfa bob amser ddarparu'r cymorth grant brys i helpu unigolion mewn argyfwng, ond bydd angen inni gasglu digon o wybodaeth i sicrhau ein bod yn darparu pecyn cymorth mwy cyfannol a gaiff effaith tymor hwy ar lesiant ariannol y rhai sy'n gwneud cais.

---

Ynghyd â'r argymhellion uchod gwnaeth y Pwyllgor y tri chasgliad canlynol,

- 1. Byddwn yn cadw golwg ar faint o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyngor ar ddyled a pha mor gynaliadwy ydyw fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, y disgwylir iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar 20 Rhagfyr 2021.**

Dim angen ymateb.

- 2. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan y Gweinidog yn amlinellu'r achos dros Lywodraeth y DU yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i wledydd y DU drwy'r ardoll cyngor ar ddyled y byddai Cymru'n cael cyfran gymesur ohoni.**

Gwyddom fod COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar gyllid aelwydydd. Datblygodd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau fodel cynhwysfawr i ragamcanu'r angen am gyngor ar ddyled ledled y DU dros y tair blynedd nesaf (i lywio'r penderfyniadau ynghylch yr ardoll ariannol flynyddol i'w chasglu yn y dyfodol). Mae'r gwaith modelu yn seiliedig ar amrywiaeth o ragolygon macroeconomaidd effeithiau diweithdra ac incwm allweddol a micromodelu amgylchiadau ariannol unigol, e.e., pobl ag unrhyw ôl-ddyledion. Drwy eu haelodaeth o Dasglu Dyled COVID-19 y DU mae swyddogion wedi cyfrannu at y gwaith hwn ac maent yn fodlon bod nodwedion a thybjaethau'r gwaith rhagamcanu yn gywir ac wedi'u hategu gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau allanol. Roedd penderfyniad Llywodraeth y DU i ofyn i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol gasglu taliad ardoll ychwanegol yn 2020-21, mewn ymateb i effeithiau COVID-19, yn ymateb a groesawyd.

Mae cyfran cyfanswm ardoll y DU a gaiff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfrifiad sy'n adlewyrchu canran yr oedolion â gorddyledusrwydd yng Nghymru. Nid oedd y

cyfrifiad i bennu gorddyledusrwydd wedi'i ddefnyddio'n flaenorol fel ffordd o ddyrannu cyllid a gwnaeth Llywodraeth Cymru gwestiynu ei gadernid. Mewn ymateb, cytunodd Llywodraeth y DU y byddai'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, drwy gydweithio â chydweithwyr yn y gweinyddiaethau datganoledig, yn creu dull mwy cadarn o gyfrifo gorddyledusrwydd. Dros y 12 mis diwethaf mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ac mae fersiwn derfynol o fethodoleg ddiwygiedig i bennu gorddyledusrwydd yn cael ei llunio. Mae swyddogion yn fodlon y bydd y fethodoleg yn cynnig darlun cywir o'r boblogaeth â gorddyledusrwydd yng Nghymru.

- 3. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at bob un o'r pedwar heddlu gyda chopi o'r adroddiad hwn ac yn gofyn iddynt ymateb i'n pryderon ynghylch yr heddlu'n cymryd rhan mewn achosion o droi allan.**

Dim angen ymateb.

---